**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

8 June 2023

Annwyl Llŷr,

Gobeithio fod popeth yn dda gyda chi. Rwy'n ysgrifennu atoch am yr asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen ar Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW) iddi allu gwneud ei gwaith.

Y sbardun dros gynnal yr asesiad oedd argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith (CCEI) ar y mesurau llywodraethu amgylcheddol interim. Amcan yr asesiad oedd edrych ar lefel yr adnoddau sydd wedi'i neilltuo i'r IEPAW er mwyn gweld a oes unrhyw fylchau all fod yn rhwystro'r IEPAW rhag cadw golwg ar y ffordd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio yng Nghymru. Gweler manylion yr asesiad yn yr atodiad isod.

Ar sail canfyddiadau'r asesiad, mae'n amlwg bod angen rhagor o adnoddau ar yr IEPAW iddi allu gwneud ei gwaith pwysig yn effeithiol. O ganlyniad, mae'n bleser gen i allu dweud wthych bod Llywodraeth Cymru am gymryd y camau canlynol i sicrhau bod gan yr IEPAW yr adnoddau sydd eu hangen i wneud ei gwaith:

- Penodi Dirprwy IEPAW,
- Recriwtio staff i ddarparu cymorth ysgrifenyddiaeth i'r IEPAW
- Neilltuo rhagor o arian i'r IEPAW iddi allu cael rhagor o arbenigedd a chymorth drafftio, gan gynnwys trwy gontract yn ôl y gofyn.

Bydd yr adnoddau ychwanegol hyn yn sicrhau bod yr Asesydd Interim yn gallu gwneud ei gwaith yn effeithiol c sicrhau ei bod yn fwy cydnerth. Bydd hynny yn ei dro'n helpu'r newid i drefniadau llywodraethu amgylcheddol mwy tymor hir wrth i ni weithio at baratoi Bil i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol parhaol yn ystod tymor y Senedd hon. Byddwn yn cadw golwg ar lefel yr adnoddau sydd wedi'i neilltuo i'r IEPAW a gallem gymryd camau pellach os gwelwn fod angen rhagor o adnoddau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith gyda'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol interim. Mae'n bwysig sicrhau bod y trefniadau interim hyn yn gweithio mor effeithiol â phosibl tan fod corff llywodraethu amgylcheddol parhaol yn cael ei sefydlu. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Pwyllgor am ei waith a'i argymhellion.

Os oes gennych gwestiynau neu os hoffech ragor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change,

## ATODIAD: ASESU'R ADNODDAU AR GYFER YR IEPAW

### Cefndir

Cafodd y Dr Nerys Llewelyn Jones ei phenodi'n Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW) ym mis Mawrth 2021 i ystyried pryderon a fynegwyd gan y cyhoedd ynghylch y ffordd y mae cyfraith amgylcheddol yng Nghymru yn gweithio ac i gyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru i'w helpu i wella canlyniadau amgylcheddol. Wrth ystyried sut y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio, caiff yr IEPAW ystyried a yw cyfreithiau'n ateb y gofyn, yn berthnasol o hyd, a ydyn nhw'n cael eu hesbonio'n gywir neu a oes ffactorau ymarferol sy'n eu rhwystro rhag cael eu rhoi ar waith yn iawn.

Mae'r IEPAW yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru er mai swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r Ysgrifenyddiaeth iddi. Disgwylir i'r swydd barhau tan y caiff corff parhaol ei sefydlu i oruchwylio cyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

Mae'r IEPAW wedi bod yn ei swydd am bron ddwy flynedd. Yn yr amser hwnnw, mae hi wedi cael 27 o gyflwyniadau gan y cyhoedd ynghylch y ffordd y mae cyfreithiau amgylcheddol yn gweithio yng Nghymru ac mae hi wedi cyflwyno un adroddiad i'r Gweinidog Newid Hinsawdd. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwnnw ar 16 Chwefror 2023 ac mae'n ymdrin â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU.

Mae gan yr IEPAW gyllideb flynyddol o £45,000.

### Adroddiad Pwyllgor y CCEI ar y mesurau interim

Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith (CCEI) Senedd Cymru adroddiad ar y mesurau interim ar gyfer diogelu'r amgylchedd. Mynegwyd pryderon ynddo ynghylch capasiti'r IEPAW a bod prinder adnoddau wedi arwain at oedi wrth gynhyrchu adroddiadau ar y ffordd y mae'r gyfraith amgylcheddol yn gweithio. Mewn ymateb i hynny, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad brys o adnoddau'r IEPAW. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn gan ymrwymo i baratoi adroddiad i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r asesiad hwn cyn gynted ag y medrai.

Er mwyn cynnal yr asesiad, cyfarfu'r Dirprwy Gyfarwyddwr Tirweddau, Natur a Choedwigaeth â'r IEPAW i drafod sefyllfa'r adnoddau ac unrhyw gymorth arall sydd ei angen arni. Mae'r papur hwn yn nodi canlyniadau'r trafodaethau hynny.

### Ymrwymiadau'r IEPAW ar gyfer 2023/2024

Mae'r IEPAW wrthi'n paratoi neu wedi ymrwymo i baratoi nifer o adroddiadau cyn diwedd ei phenodiad ar 29 Chwefror 2024. Bydd yr adroddiadau'n ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Coetir a choedwigaeth
- Diogelu a rheoli perthi/gwrychoedd
- Safleoedd gwarchodedig
- Defnyddio sancsiynau sifil mewn cyfraith amgylcheddol
- Ansawdd dŵr

Mae'r IEPAW wedi gwneud rhywfaint o waith cwmpasu cychwynnol ar faterion eraill hefyd, ond nid yw'n glir eto a fydd y gwaith hwnnw'n esgor ar adroddiadau ym mlwyddyn adrodd 2023/24.

Yn ogystal ag adroddiadau, mae nifer o bethau eraill yn gwasgu ar amser yr IEPAW, gan gynnwys trafod â rhanddeiliaid, cymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus a gohebu â chyflwynwyr. Mae cysylltu â rhanddeiliaid, yn arbennig, wedi bod yn dreth ar amser yr IEPAW dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn ogystal â'r ymrwymiadau hyn, rhagwelir y bydd angen i'r IEPAW neilltuo amser ychwanegol yn ystod y 12 mis a mwy nesaf i gysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod y trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol.

Roedd yr IEPAW wedi'i chontractio i weithio am o leiaf 20 diwrnod y flwyddyn. Yn ymarferol, mae hi wedi bod yn gweithio rhwng dau a thri diwrnod y mis ar fusnes IEPAW.

**Yr adnoddau sydd eu hangen**

Y bylchau mwyaf a nodwyd gan yr IEPAW yw ymchwil gyfreithiol a drafftio adroddiadau. Mae Dr Jones wedi nodi ei bod yn fodlon â'r cymorth y mae'n ei gael gan unigolion yn Nhîm ei Hysgrifenyddiaeth ond mae hi'n poeni eu bod yn swyddogion polisi Llywodraeth Cymru sydd â gofynion gwaith eraill a bod perygl i hynny wrthdaro â'i hannibyniaeth canfyddedig. Mae hi'n credu y gallai IEPAW elwa ar gael rhagor o arbenigedd cyfreithiol.

Mae Ysgrifenyddiaeth yr IEPAW wedi ceisio llenwi'r bylchau hyn trwy dendrau bach unigol ag academyddion a chyfreithwyr proffesiynol. Mae'r tendrau hyn wedi'u defnyddio i gomisiynau papurau ymchwil i'w defnyddio gan yr IEPAW fel sail i'w hadroddiadau. Mae'r IEPAW wedi gallu bwrw yn ei blaen â nifer o adroddiadau o ganlyniad a'u mantais yw y bu modd dewis unigolion sydd ag arbenigedd penodol i weithio ar faterion penodol.

Ond mae i hynny ei gyfyngiadau. Yn gyntaf, mae defnyddio tendrau unigol i baratoi adroddiadau penodol wedi rhoi baich gweinyddol trwm ar Ysgrifenyddiaeth fach yr IEPAW. Yn ail, o ddefnyddio arbenigwyr gwahanol, mae perygl o ddiffyg cysondeb rhwng adroddiadau'r IEPAW.

Am hynny, mae'r IEPAW yn credu bod angen ateb mwy parhaol.

**Sut i gynyddu'r capasiti ar gyfer yr IEPAW**

Yn ein trafodaethau â'r IEPAW, gwelwyd tri opsiwn posibl ar gyfer cynyddu capasiti'r gwasanaeth. Byddent yn ategu ei gilydd a'r tri gyda'i gilydd fydd yn debygol o esgor ar y canlyniad gorau.

<u>Opsiwn 1: Penodi Dirprwy IEPAW</u>

Gyda'r opsiwn hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n penodi dirprwy i'r Dr Jones trwy'r broses penodiadau cyhoeddus. Byddai'n cryfhau Tîm yr IEPAW pe na bai'r IEPAW ar gael am ryw reswm a byddai'n caniatáu i'r IEPAW ganolbwyntio mwy ar agweddau strategol y rôl.

Byddai rôl y Dirprwy yn debyg yn fras i swydd yr IEPAW ond byddai angen arbenigedd cyfreithiol arni er mwyn llenwi'r bwlch sgiliau sydd o fewn y tîm. Fel swydd yr IEPAW, câi ei hysbysebu fel swydd ran-amser.

Opsiwn 2: Penodi rhagor o staff ar gyfer yr Ysgrifenyddiaeth

Opsiwn arall a drafodwyd gyda'r IEPAW oedd penodi rhagor o staff i ddarparu cymorth ysgrifenyddiaeth iddi.

Ar hyn o bryd, mae gan yr IEPAW Ysgrifenyddiaeth o ddau o swyddogion Llywodraeth Cymru. Er bod yr IEPAW wedi dweud ei bod yn fodlon â'r cymorth y mae'n ei gael gan y ddau, mae hi'n poeni mai dim ond rhan o'u gwaith yw eu gwaith gyda'r Ysgrifenyddiaeth. Mae'r ddau'n gyfrifol am feysydd gwaith eraill ac nid ydynt felly yn gallu ymroi o'u hamser yn llwyr i waith yr IEPAW.

Nodwyd o ddefnyddio swyddogion Llywodraeth Cymru nad ydynt yn rhoi o'u holl hamser i waith yr IEPAW bod perygl i bobl feddwl nad yw hynny'n gydnaws â natur annibynnol eu rôl. Barn yr IEPAW oedd y byddai sefydlu tîm oedd ond yn gweithio i'r IPEAW yn helpu i atgyfnerthu'r annibyniaeth honno.

O safbwynt y tymor hwy, awgrymodd yr IPEAW y dylai Llywodraeth Cymru ystyried hefyd y posibilrwydd o greu corff llywodraethu amgylcheddol 'cysgodol' a allai helpu'r IEPAW a chynnal rhai o swyddogaethau'r corff parhaol cyn ei sefydlu. Cyfaddefodd na fyddai'r opsiwn hwn yn debygol o fod yn ymarferol yn y tymor byr, ond awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiwn hwn wrth i'r gwaith o sefydlu corff parhaol fynd yn ei flaen.

Opsiwn 3: Contract yn ôl y gofyn

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod yr Ysgrifenyddiaeth yn creu contract 'yn ôl y gofyn' gan ddefnyddio darparwr allanol i gynnal ymchwil gyfreithiol a rhoi cymorth drafftio i'r IEPAW.

Rhagwelir y byddai'r sawl y dyfernir y contract iddo yn gwneud y gwaith cwmpasu cychwynnol sy'n gysylltiedig â'r cyflwyniadau a wneir i'r IEPAW, y dadansoddi cychwynnol o dystiolaeth rhanddeiliaid ac yn paratoi adroddiadau drafft i'r IEPAW. Gwaith yr IEPAW fyddai rhoi o'i harbenigedd i ystyried yr adroddiadau, sicrhau ansawdd, cynnig argymhellion a rhoi cyfeiriad strategol cyffredinol i'r gwasanaeth.

Ystyriwyd defnyddio Fframwaith Caffael Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru i gaffael y gwaith hwn. Byddai cost yr opsiwn hwn yn fawr, felly mae'n debyg y bydd angen cyllideb ychwanegol.

## Casgliadau

Mae Llywodraeth Cymru'n diolch i'r IEPAW am ei gwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac am ei help i baratoi'r asesiad hwn. Bydd y swyddogion yn ystyried yr opsiynau uchod ac yn cyflwyno adroddiad ar y penderfyniadau a wneir yng ngoleuni'r asesiad hwn.